**COFNODION CYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLANRUG A CHWM Y GLO A GYNHALIWYD NOS FAWRTH 16 O FAI 2017 YN YSGOL GYNRADD CWM Y GLO**

**PRESENOL:** Y Cynghorwyr Goronwy Hughes (Cadeirydd) , Meryl Green (Is-g gadeirydd) Rhys Parry, Meirwen Lloyd, Hefin Jones, Phil Roberts

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Richard Robinson, Avril Jones, Cemlyn Jones, Alan Pritchard, Miriam (Cynrychiolydd Ieuenctid), Beca (Cynrychiolydd Ieuenctid).

**HEFYD YN BRESENOL:** Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Aelod Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd)

**Clerc:** Meirion Jones

1. **CROESO**

   Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

2. **DERBYN YMDDIHEURIADAU**

   Derbyniwyd ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

3. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Penderfynwyd rhain i'w codi wrth fynd drwy'r agenda

4. **CADARNHAU COFNODION MIS EBRILL**

   Cadarnhawyd cofnodion mis Ebrill yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd.

5. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**

   Aelodau Ieuenctid – nodwyd fod yr aelodau wedi dod i'r cyfarfodydd ond oherwydd gwyliau ac eu bod nawr yn nghanol arholiadau, nid oeddynt wedi gallu dod i gyfarfodydd yn ddiweddar. Teimlwyd gan y Cyngor fod gan yr aelodau ieuenctid lawer iawn i'w gynnig ac fod angen eu annog i gymryd rhan yn waith y Cyngor. Penderfynwyd i'r Cadeirydd a'r Clerc gael cyfarfod a hwy ar ôl yr arholiadau i egluro hyn ac i drafod eu dyheadau hwy ac i ystyried rhoi prosiect penodol iddynt dros yr haf

6. **Llenwi seddi gwag ar y Cyngor**

Adroddwyd fod y Cyngor gyda 4 aelod yn fyr ac fod angen penderfynu os ydi'r Cyngor am symud ymlaen i lenwi'r seddau hyn neu beidio.

**Penderfynwyd:** Symud ymlaen i lenwi'r seddau gwag ac i'r Clerc wnaed y trefniadau angenrheidiol.

7. **Materion Cynllunio**

Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio: C17/0396/23/LL

Lleoliad y Safle: Afonwy Farm, Pontrug, Caernarfon, LL552SW

Dyddiad Cofrestru: 19-Ebrill-2017

Math o Gais: Llawn - Cynllunio

Ward: Cwm y Glo

Cymuned: Llanrug

Bwriad: Estyniad un llawr i gefn annedd preifat, gan gynnwys man addasiadau i'r ffordd fynedfa / iard.

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

8. **Llwybrau Cyhoeddus**

Nodwyd fod angen symud ymlaen i gofrestru 3 llwybr newydd yn Llanrug.

Eglurwyd mai y broblem yw fod angen map safle o'r llwybrau ar raddfa 10,000: 1. Cytunodd Y Cynghorydd Sir i ymchwilio i'r posibilrwydd o gael mapiau i'n cynorthwyo. Aeth ymlaen i ymhelaethu y byddai yn cydweithio gyda'r Cynghorydd Charles Jones.

Adroddwyd fod y contractwr wedi cytuno i greu pontydd ar draws y ffos i fynd o ystâd Afon Rhos drosodd ar y llwybr cyhoeddus ac o Glan Ffynnon i'r llwybr.

Penderfynwyd: Cysylltu a'r contractwr a gofyn iddo gychwyn y gwaith

Bydd yr aelodau yn cofio i ddigwyddiad anffortunus ble ymosodwyd ar berson gan gŵn. Yn dilyn y digwyddiad yma, cysylltwyd a Chyngor Gwynedd i adrodd

am yn cŵn. Nodwyd fod ymateb wedi dod gan y Swyddog Llwybrau i'r digwyddiad.

Penderfynwyd: Cysylltu a'r Swyddog llwybrau i ddiolch iddo am ei waith

**9. Y Fynwent**

Adroddwyd fod y fynwent mewn cyflwr da ac fod y gwaith a amlinellodd Pwyllgor y Fynwent wedi ei gychwyn.

Adroddwyd fod rhodd wedi roi tuag at gynhaliaeth y fynwent.

**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth a'r Clerc i anfon llythyr o ddiolch i'r rhoddwr ar ran y Cyngor.

**10. I ystyried gwaith ar wal rhwng maes chwarae Nant y Glyn a'r tai newydd a derbyn y dyfynbris a dderbyniwyd.**

**Penderfynwyd:** Derbyn y dyfynbris a'r Clerc i hysbysu'r contractwr iddo gychwyn a'r gwaith cyn gynted a phosib.

**11. Lleoliad Hysbysfyrddau**

I ystyried lleoliad un hysbysfwrdd ym maes parcio Ystorfa a holi os fuasai bosib cael caniatâd i'w osod yn maes parcio Penbont

**12. Maes Parcio Ystorfa, Llanrug**

Nodwyd nad oedd yr eitem yma ar yr agenda ond fe'i drafodwyd fel maent o drefn a gweithrediad brys. Nodwyd fod lle i barcio 6 o geir yn y maes parcio ond fod 4 car yn parhau i barcio yno yn gyson dros yr amser. Trafodwyd nifer o ffyrdd ac opsiynau i ddelio a'r mater a cytunwyd i gysylltu a 'DVLA' i gael manylion perchennog cofrestredig y ceir.

Penderfynwyd rhoi materion y maes parcio yn eitem ar agenda mis Mehefin.

Daeth y cyfarfod i ben am 20:40

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: